PWYLLGOR	**PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**
DYDDIAD	**13 GORFFENNAF 2017**
TEITL	**ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU**
PWRPAS YR ADRODDIAD	**ADRODD AR Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 9 MAWRTH 2017**
AWDUR	**CYNGHORYDD ANGELA RUSSELL**
GWEITHREDIAD	**DERBYN YR ADRODDIAD AC YSTYRIED YR ARGYMHELLION**

---

1. CYFLWYNIAD

1.1 Cynhaliwyd cyfarfod y Gweithgor ar 9 Mawrth 2017 gydag Is-Gadeirydd y Pwyllgor, Y Cynghorydd Angela Russell a'r Cynghorwyr John Brynmor Hughes, Dilwyn Morgan a Michael Sol Owen, Luned Fôn Jones, Rheolwr Archwilio a Bleddyn Rhys, Arweinydd Archwilio yn bresennol. Yn absenoldeb y Cynghorydd Trefor Edwards, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, cadeiriwyd y Gweithgor gan y Cynghorydd Angela Russell.

1.2 Yr adroddiadau a dderbyniodd sylw'r Gweithgor oedd:

TEITL	ADRAN	GWASANAETH	BARN
Gweithwyr Cefnogol Plant (Derwen)	Plant a Chefnogi Teuluoedd	Plant a Theuluoedd	C
Gwerthiant Disel	Economi a Chymuned	Morwrol a Pharciau Gwledig	C
Goramser YGC	YGC	Ar draws yr Adran	C
Cartref Plas Gwilym	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Preswyl a Dydd	C

2.3 Mynychodd swyddogion perthnasol i drafod yr adroddiadau unigol ag eithrio ar gyfer Plas Gwilym.

2.4 Gweithwyr Cefnogol Plant (Derwen)

2.4.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

Mae Manylion Person swydd Gweithiwr Cefnogol yn mynegi ei fod yn 'hanfodol' bod gweithwyr yn meddu ar 'NVQ Lefel 3 Gofal Iechyd a Chymdeithasol - Llwybr Gofal Plant' neu yn barod i weithio tuag ato. Gwiriwyd y bas-data hyfforddiant a thaenlen bwrpasol y Gwasanaeth ar gyfer sampl o weithwyr a gwelwyd amrywiaeth o gymwysterau gwahanol, rhai gyda nifer a rhai heb lawer. Gwelwyd esiampl o Weithiwr Cefnogol yn darparu gwasanaeth i gleient ble nad oedd tystiolaeth bod hyfforddiant 'Respect' wedi ei dderbyn, yn unol â'r asesiad risg. Darganfuwyd nad oedd llawer o weithwyr yn gymwysedig yn NVQ Lefel 3. Mae angen i'r gweithwyr weithio isafswm o oriau fel rhan o'r cymhwyster sy'n ei wneud yn anodd i weithwyr achlysurol gymhwyso. Nid oes hefyd gymaint o gymorth ariannol i weithwyr dros 25 oed i hyfforddi i lefel NVQ. Yn ogystal, mynegwyd bod gweithwyr cymwysedig yn dueddol i gamu ymlaen i swyddi eraill wedi iddynt gymhwyso sy'n ei gwneud yn anodd penodi a chadw gweithwyr cymwysedig yn NVQ Lefel 3.

Gwelwyd bod amryw o hyfforddiant ar gael i'r gweithwyr petaent yn dymuno eu mynychu. Fodd bynnag, nid oes gan weithwyr di-swyddfa megis Gweithwyr Cefnogol fynediad at E-Gwynedd a'r Ganolfan Bolisi ar hyn o bryd, ond disgwylir i hyn newid unwaith mae System Integredig Dysgu a Datblygu mewn lle (Haf 2017), sy'n caniatáu i pob gweithiwr gael mynediad at systemau Dysgu a Datblygu ar unrhyw amser drwy ddyfeisiadau personol.

Disgwylir bod Gweithwyr Cefnogol gyda thrwydded yrru lawn a defnydd o gar. Wrth benodi, gofynna Derwen am gopi o drwydded yrru, tystysgrifau MOT ac yswiriant i'w cadw ar ffeil a nodi'r manylion ar daenlen. Fodd bynnag, nid oedd y daenlen yn gyflawn a chyfredol. Yn ogystal, nid oes trefn barhaus o sicrhau bod trwyddedau gweithwyr heb gronni pwyntiau cosb, a all gynyddu risg i gleientiaid.

Mae'r Gwasanaeth wedi bod yn ddibynnol ar y Gwasanaeth Cefnogol (Cefnogaeth Gorfforaethol) i hysbysu Gweithwyr Cefnogol pryd y dylid adnewyddu eu tystysgrifau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Wrth wirio'r system swyddi, gwelwyd bod oediadau rhwng dyddiadau darfod ac adnewyddu. Mae adroddiad AGGCC yn atgyfnerthu hyn drwy argymell i Derwen fod yn fwy rhagweithiol a dyfeisio system gadarn o roi rhybudd cynnar i weithwyr.

Gwiriwyd costau teithio sampl o weithwyr, gan eu dilyn yn ôl i'w taflenni amser, adroddiad sesiwn a chynllun gofal y cleient. Ymddengys bod y costau teithio'n briodol, ac nad oedd siwrneiau afresymol wedi eu hawlio, boed yn leoliad neu bellter. Fodd bynnag, gwelwyd anghysondeb mewn perthynas â hawlio costau, megis lluniaeth.

Gall Gweithwyr Cefnogol hawlio hyd at symiau penodol tuag at costau lluniaeth eu hunain yn ddibynnol ar yr amser o'r dydd, ond gwelir ceisiadau yn uchafu'r trothwy yma.

O'r sampl o daflenni amser a wiriwyd, gwelwyd rhan amlaf nad oedd llofnod y cleient/Rheolwr Achos arnynt, er bod gofyniad iddynt ei arwyddo ar ôl pob sesiwn.

Ar gyfer sampl o Weithwyr Cefnogol, gwiriwyd y ffurflenni costau teithio a'r amserlenni gwaith er mwyn dethol cleient, gan ddilyn yr adroddiad sesiwn yn ôl i'r Cynllun Gofal i weld os ydynt yn cyd-fynd. Yn gyffredinol, gwelwyd bod yr adroddiadau sesiwn yn unol â'r Cynllun Gofal, megis mynd i nofio, mynd i gerdded ayyb. Fodd bynnag, gwelwyd enghraifft o gleient yn ymweld â chaffis, er bod y Cynllun Gofal yn dweud yn benodol na chaiff y cleient fwyta dim tra gyda Gweithwyr Cefnogol. O'r sampl o Weithwyr Cefnogol a wiriwyd, gwelwyd nad oeddynt wedi arwyddo Cynllun Gofal eu cleient, felly nid oes prawf bod eu cynnwys yn wybodus i'r Gweithwyr.

O'r hyn a ellir ei weld o'r adroddiadau sesiwn, ymddengys fod y Gweithwyr Cefnogol yn cyflawni gofynion ac anghenion y cleient. Fodd bynnag, rhaid cymryd i ystyriaeth y ffaith nad yw'r adroddiad sesiwn yn dangos y darlun cyfan, ac nad oes modd i'r archwiliad gwmpasu sgiliau meddal y Gweithwyr Cefnogol sy'n allweddol i gyflawni anghenion y cleient.

Wrth wirio'r Cynlluniau Gofal ac asesiadau risg, gwelwyd bod nifer ohonynt bellach wedi dyddio. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn mynegi'r angen i adolygu'r cynlluniau yn gyson. Yn ogystal, gwelwyd un Cynllun yn cyfeirio at gleient droeon gydag enw anghywir, gall awgrymu nad yw'r Cynlluniau yn cael eu darllen yn aml neu y defnyddir "cut & paste" o gynllun arall. Fel rhan o gynllun gweithredu archwiliad y AGGCC, cytunodd Derwen i adolygu a diweddaru'r Cynlluniau Gofal, proffil y cleient ac asesiadau risg.

Disgwylir i'r Gweithwyr Cefnogol dderbyn 4 sesiwn goruchwyliaeth yn flynyddol. Fodd bynnag, amlygwyd archwiliad AGGCC nad yw'r sesiynau wedi eu gwasgaru drwy'r flwyddyn, fel y disgwyl. Erbyn hyn, mae taenlen mewn lle yn monitro'r dyddiadau. Fodd bynnag, mae'n gynamserol i weld pa mor gadarn yw'r trefniadau newydd ar amser yr archwiliad yma.

2.4.2 Croesawyd Mark Russell Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogol (Derwen) i'r cyfarfod i drafod archwiliad Gweithwyr Cefnogol Plant (Derwen). Mynegodd y Rheolwr Archwilio bod y Rheolwr Gwasanaeth Cefnogol yn newydd i'r swydd yma, ac nad oedd wedi ei benodi pan gyhoeddwyd yr adroddiad archwilio terfynol. Fodd bynnag, nododd y Rheolwr Gwasanaeth Cefnogol ei fod wedi bod yn rhan o'r cyfarfod cloi gyda'r cyn-Reolwr Gwasanaeth Cefnogol a'r Arweinydd Archwilio.

2.4.3 Cyflwynwyd crynodeb o ddarganfyddiadau'r archwiliad gan y Rheolwr Archwilio. Eglurodd mai'r prif bryder oedd bod dogfennaeth megis asesiadau risg a chynlluniau gofal wedi dyddio, a bod camgymeriad amlwg heb ei ddarganfod gan y Gwasanaeth mewn cynllun gofal penodol oedd yn awgrymu nad oes neb yn eu darllen. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth Cefnogol bod paneli monitro wedi eu sefydlu er mwyn cynnal ymarferion cyfnodol i ddiweddaru'r holl ddogfennaeth gyda'r Gweithwyr Cymdeithasol. Croesawyd hyn gan aelodau'r Gweithgor ond ategodd un o'r cynghorwyr bod angen monitro parhaus yn ogystal.

2.4.4 Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth Cefnogol bod y Gwasanaeth wedi dechrau cynnal gwiriadau amserol dros y we ar gerbydau a thrwyddedau gyrru'r Gweithwyr Cefnogol yn hytrach na dibynnu yn unig ar y swyddogion i gyflwyno unrhyw newidiadau megis pwyntiau gormodol ar eu trwyddedau. Ychwanegodd bod y Gwasanaeth wedi cymryd camau i fod yn fwy rhagweithiol wrth wirio datganiadau DBS, yn hytrach na dibynnu ar yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol.

2.4.5 Datgelodd y Rheolwr Gwasanaeth Cefnogol ei fod hefyd wedi llythyru'r holl weithwyr cefnogol i'w hatgoffa o'r rheolau ar gyfer hawlio cynhaliaeth yn sgil yr anghysondeb a amlygwyd yn yr adroddiad archwilio.

2.4.6 **Diolchwyd i'r Rheolwr Gwasanaeth Cefnogol am fynychu'r cyfarfod ac am egluro'r camau gweithredol sydd ar waith i liniaru'r risgiau a adnabuwyd yn ystod yr archwiliad.**

2.5 Gwerthiant Disel

2.5.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

Gwelwyd achosion ym mhob un o'r Harbyrau lle nad oed yr incwm a gasglwyd wedi bod yn cael ei fancio'n wythnosol yn unol â'r disgwyl. Gwelwyd oediad o dros fis yn Harbwr Abermaw ac oediad o dros 3 wythnos yn Harbwr Porthmadog.

Gwelwyd bod incwm gwerthiant disel coch yn yr Harbyrau sydd ar adegau yn gynwysedig o'r elfen treth ychwanegol 'additional duty' o £0.4681 yn cael ei gyfeirebu i gyd i god byr D 'Gwerthu Disel', sy'n golygu bod yr incwm treth ychwanegol yn cael ei drin fel incwm yn gynwysedig o DAW. Nid yw'r dreth ychwanegol yn cynnwys TAW. Golyga hyn bod 5% o'r incwm a gesglir mewn treth ychwanegol yn cael ei dalu drosodd i Cyllid a Thollau EM yn ddianghenriad.

Gwelwyd achosion yn Harbyrau Abermaw a Phorthmadog lle nad oedd y ffioedd cywir wedi cael eu codi am werthiant disel. Mae trefn yn bodoli lle mae'r Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn anfon e-bost at yr Harbwr Feistri yn eu hysbysu pan fo newid ym mhrisiau'r tanwydd yn dilyn pryniant stoc newydd ac fe ddisgwylir bod yr Harbwr Feistri yn gweithredu ar hyn.

Gwelwyd bod trefn dda yn bodoli yn y tri Harbwr o sicrhau bod cwsmeriaid yn cwblhau datganiad o ba % o'r pryniant disel sy'n cael ei ddefnyddio at bwrpasau masnachol a domestig. O'r sampl archwiliwyd gwelwyd bod datganiad yn bodoli ar gyfer pob gwerthiant fodd bynnag, gwelwyd achosion yn Harbyrau Abermaw a Phorthmadog lle nad oedd y cwsmeriaid wedi arwyddo'r datganiadau pob tro.

Wrth archwilio rhestr cwsmeriaid Harbwr Aberdyfi sydd yn derbyn credyd gan y Cyngor ar gyfer pryniant disel, gwelwyd bod cwsmer rhif cwsmer 016785 â dyledion costau trydan ac ad-daliad dŵr yn deillio yn ôl i 2010. Yn dilyn trafodaethau pellach ynghylch y mater gyda'r Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, bu iddo fynegi bod angen trefnu i ddileu'r dyledion oherwydd amgylchiadau busnes y cwsmer bryd hynny.

Mae gan y Gwasanaeth Morwrol drefn dda o gofnodi manylion y disel a werthir, y stoc disel a brynir ynghyd â manylion y stoc disel sydd mewn llaw ar gyfer pob un o'r Harbyrau. Fodd bynnag, gwelwyd gwallau yn ffigyrau stoc mewn llaw ar daenlen Harbwr Porthmadog ar gyfer misoedd Mehefin 2016 a Gorffennaf 2016, bellach mae'r gwallau wedi eu cywiro.

Gwelwyd bod trefn gan Harbwr Feistr Abermaw o ganiatáu i gwsmeriaid gael credyd, ond yn hytrach na chodi anfoneb arnynt pob mis, caniateir iddynt gael credyd am gyfnod hirach na mis ac wedyn yn caniatáu iddynt dalu'r ddyled pan y gyfleus. Gwelwyd bod un cwsmer wedi cael hyd at 3 mis o gredyd cyn bod y cwsmer wedi talu ei ddyledion. Fe weinyddir y drefn yma gan yr Harbwr Feistr yn unig. Mae'r drefn yma yn effeithio ar lif arian y Cyngor. Deëllir ei fod yn fwriad gan y Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i derfynu'r drefn o godi anfonebau ar gwsmeriaid pan fydd y system newydd o dalu gyda chardiau wedi eu sefydlu yn y tri Harbwr.

Wrth archwilio taenlenni manylion gwerthiant a phryniant disel Abermaw a'r llyfrau derbynebau a bancio, daethpwyd ar draws amryw o wallau megis incwm anghywir wedi ei gasglu gan y cwsmer a rhifau derbynebau wedi eu mewnosod yn y mannau anghywir ar y taenlenni.

Deëllir bod y Gwasanaeth Morwrol wedi ystyried y posibilrwydd o osod peiriannau cardiau yn yr Harbyrau, ond heb wneud unrhyw waith ymchwil ar y mater hyd yma. Gall y Gwasanaeth Incwm roi'r Gwasanaeth Morwrol ar ben ffordd unwaith y bydd y Gwasanaeth Morwrol wedi adnabod pa fath o beiriannau sydd eu hangen ym mhob un o'r Harbyrau.

2.5.2 Croesawyd Barry Davies, Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gweledig a Llyr Beaumont Jones, Uwch Reolwr o'r Adran Economi a Chymuned i'r cyfarfod.

2.5.3 Amlinellodd y Rheolwr Archwilio y prif feysydd o risg a ddaeth i'r amlwg yn sgil yr archwiliad. Diolchodd y Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig am y cyfle i gael mynychu'r Gweithgor i drafod y camau mae'r Gwasanaeth wedi ei gymryd i liniaru'r risgiau a amlygwyd a mynegodd ei siomedigaeth am ddarganfyddiadau'r archwiliad. Eglurodd y Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y cynllun gweithredu cytunedig wedi ei roi ar waith.

2.5.4 Eglurodd swyddogion yr Adran mai un o'r prif newidiadau a fydd mewn lle erbyn yr haf yw y gall gwsmeriaid ddewis talu â cherdyn. Bydd hyn yn lleihau'r gwaith papur sy'n gysylltiedig â gweinyddu arian, ac yn lleihau'r risg o golled ariannol drwy dwyll, ladrad neu gamweinyddu. Croesawyd hyn gan aelodau'r Gweithgor, gan nodi mewn gwirionedd y dylai'r gallu i dalu gyda cherdyn fod eisoes mewn lle.

2.5.6 Cafwyd trafodaeth am ddefnydd o ddisel coch a disel gwyn gydag un aelod yn mynegi y dylai'r Cyngor werthu disel gwyn yn unig er mwyn arbed yr holl waith papur a'r weinyddiaeth lafurus sydd ynghlwm â disel coch. Mynegodd y Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod hyn eisoes wedi ei drafod gan y Gwasanaeth ond penderfynwyd yn erbyn gan y gall hynny arwain at gostau uwch i'r cwsmeriaid. Roedd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned o'r farn bod angen ymgorffori meddylfryd Ffordd Gwynedd wrth weinyddu disel coch gan ymgeisio i ddarganfod ffurf fwy effeithiol o weithredu.

2.5.7 Diolchwyd i'r Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a'r Uwch Reolwr Economi a Chymuned am egluro'r trefniadau sydd eisoes yn weithredol a'r rhai sydd ar y gweill i wella gweithdrefnau.

2.6 Goramser YGC

2.6.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

Fel rhan o'u hymdrechion i sicrhau cysondeb ar draws yr adran, mae gwaith yn mynd rhagddo gan swyddogion YGC i fonitro goramser staff. Ymhellach i hynny maent wedi bod yn ymgynghori gyda'r Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol er mwyn dogfennu canllawiau ar reolaeth oriau ychwanegol, sydd wedi ei selio ar gytundeb torfol y Cyngor. Mae bwriad gan YGC i gylchredeg y wybodaeth ymysg yr adran unwaith y bydd wedi ei gwblhau, gan gynnwys cyfnod ymgynghorol gyda'r staff fel rhan o'r broses o'i fabwysiadu.

Wrth archwilio sampl o geisiadau am dâl goramser, fe ddaeth cyfres o anghysondebau i'r amlwg, sydd wedi eu trafod gyda'r swyddogion cyfrifol fel rhan o'r archwiliad. Ymysg yr anghysondebau a welwyd y mae:

Ffurflenni gwahanol yn cael eu defnyddio ar draws yr adran, sy'n arwain at ddiffyg cysondeb yn y wybodaeth y darperir drwy gyfrwng y ffurflenni. Deallir bod gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Uned Gyflogau i sefydlu un ffurflen safonol;
Amrywiad yn y modd y cofnodir nifer yr oriau sydd yn cael eu hawlio gan wahanol swyddogion. Mae diffyg trywydd archwilio yn rhai o'r dulliau a ddefnyddir o gofnodi'r oriau, ac ystyrir fod diffyg eglurder y wybodaeth yn ychwanegu at faich gweinyddol y swyddogion fyddai'n gwirio ac yn ardystio'r ceisiadau;
Taliadau ar raddfa amser-a-hanner wedi eu gwneud i staff sydd uwchlaw pwynt cyflog 28, pan fo'r hawliwr wedi nodi ar y ffurflen fod y gwaith yn "gynlluniedig". Cafwyd cadarnhad gan y Gwasanaethau Ymhynghorol Adnoddau Dynol bod angen mwy o eglurder ar y mater yma, sy'n cael ei gynnig yn y canllawiau ar gyfer rheolaeth oriau ychwanegol sydd yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd. Ystyrir fod hyn yn angenrheidiol er mwyn osgoi anghysondebau pellach ymysg adrannau'r Cyngor.

Mae disgwyliad bod swyddogion yn rhoi cais i weithio goramser drwy 'SharePoint', ond gwelwyd yn gyffredinol nad yw'r staff yn cydymffurfio. Mae'r swyddogion sydd yn gweinyddu o'r farn nad yw gwneud cais ôl-weithredol mewn achosion ble mae angen i'r gwaith gael ei gyflawni ar fyr rybudd yn ychwanegu unrhyw werth, felly bydd angen gwneud hyn yn glir i'r staff drwy gyfrwng eu rheolwyr llinell.

Nid oedd rheolaeth ddigonol dros gofnodion TOIL a fflecsi, ac ystyrir mai rheolwyr llinell y swyddogion unigol sy'n gyfrifol am weithredu ar hynny. Mae hyn wedi codi yn sgil y darganfyddiadau canlynol:
Mae anghysondebau i'w gweld yn y modd mae swyddogion yn cofnodi'u balans TOIL, gyda chamgymeriadau i'w gweld mewn rhai achosion, ac eraill â chofnodion anghyflawn.
Gwelwyd achosion ble bo staff rhan amser yn rhan o'r cynllun fflecsi. Mae'r cynllun fflecsi yn fuddiant ar gyfer staff llawn amser yn unig. Gwelwyd achos hefyd ble mae aelod o staff rhan amser yn cronni oriau fflecsi pan fo ar wythnos o wyliau.
Roedd yna achos ble mae aelod o staff rhan amser wedi hawlio tâl goramser ar raddfa amser-a-hanner heb fod wedi gweithio 37 awr.

Mae'r oriau a nodir ar rai ceisiadau am dâl goramser wedi eu cyfrifo'n anghywir, ond ni ystyrir fod hynny'n ddigon materol hyd yma i fod angen gweithrediad penodol. Serch hynny, dylid tynnu'r mater i sylw'r swyddogion sy'n ardystio ceisiadau.

2.6.2 Croesawyd Rhys Wynn Williams, Rheolwr Uned Busnes a Rhys Jones, Rheolwr Uned Technegol o YGC i'r cyfarfod.

2.6.3 Eglurodd y Rheolwr Archwilio bod yr archwiliad wedi ei gynnwys yn y Cynllun Archwilio ar gais Pennaeth YGC oherwydd ei bryder am anghysondebau mewn perthynas â threfniadau goramser o fewn yr Adran megis "super-flexi", TOIL a thaliadau goramser.

2.6.4 Mynegodd y Rheolwr Uned Busnes bod newidiadau wedi cymryd lle yn nhrefniadau goramser o fewn YGC dros y deuddeg mis diwethaf gyda llawer mwy o staff bellach yn gweithio "super-flexi" yn hytrach na hawlio taliadau goramser. Eglurwyd i'r Gweithgor bod y cynllun "super-flexi" yn ehangach na'r cynllun oriau hyblyg arferol.

2.6.5 Ymhelaethodd Rheolwyr YGC yr angen am bolisi goramser cadarn a chyson ar draws y Cyngor a fydd yn galluogi YGC i symud ymlaen yn llawn gyda'u trefniadau ond bod y cyfrifoldeb am ddatblygu a mabwysiadu polisïau megis goramser, TOIL, oriau hyblyg ayb yn eistedd gyda'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol.

2.6.6 Pwysleisiodd aelod pa mor hanfodol yw cael trefniadau cadarn mewn lle oherwydd bod cofnodi amser yn hanfodol i gyfrifo'r ffioedd cywir gan gleientiaid, a'i bod yn anodd i weithredu heb arweiniad polisi corfforaethol.

2.6.7 Eglurodd y Rheolwr Archwilio bod YGC wedi paratoi polisi goramser ond bod YGC yn parhau i ddisgwyl ymateb am ei gynnwys gan y Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol a oedd angen cynnal trafodaethau gydag adrannau eraill. Mynegodd y Rheolwr Uned Busnes bod staff gweinyddol YGC yn ymwybodol o'r trefniadau arfaethedig.

2.6.8 Eglurwyd i'r Gweithgor gan Reolwyr YGC bod trefniant electronig bellach mewn lle ar gyfer cofnodi goramser gweithwyr llawn amser ond bod gweithwyr rhan amser yn parhau i gyflwyno eu ceisiadau ar bapur gyda'r gobaith y bydd system electronig gyflawn wedi ei sefydlu erbyn yr Haf.

2.6.9 Diolchwyd i'r Rheolwr Uned Busnes a'r Rheolwr Uned Technegol am fynychu'r cyfarfod a diweddaru'r Gweithgor am y trefniadau sydd bellach wedi eu mabwysiadu yn YGC a'r trefniadau arfaethedig sydd ar y gweill.

2.7 Plas Gwilym

2.7.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

Mae naws gartrefol a chyfeillgar i'r cartref. Fodd bynnag, cafwyd gwybod bod lefelau absenoldebau staff yn profi i fod yn anodd ar adegau. Caiff hyn effaith ar gyflawniad dyletswyddau gweinyddol Rheolwr y cartref, gan fod sicrhau'r nifer ofynnol o staff ar gyfer bob shifft yn angenrheidiol ar gyfer sicrhau'r ddarpariaeth orau o ran gofalu am y preswylwyr. Ystyrir fod rhai o'r pwyntiau a nodir o fewn yr adroddiad hwn yn codi o ganlyniad i ddiffyg capasiti i gyflawni tasgau gweinyddol oherwydd yr anawsterau staffio.

Nid oedd Datganiad o Ddiben y cartref yn gwbl gyfredol, ond cafwyd gwybod ei fod eisoes yn destun adolygiad pan gynhaliwyd yr archwiliad.

Nid oedd modd rhoi sicrwydd bod staff wedi derbyn hyfforddiant cyfredol mewn gwahanol feysydd, gan nad oedd cofnodion y cartref yn gyfredol nac yn cyd-fynd â ffeiliau'r staff.

Nid yw staff yn derbyn goruchwyliaeth ffurfiol pob deufis, sydd yn ddisgwyliad a osodir yn y Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Mae rhestrau eiddo i bob ystafell yn y cartref, ond nid ydynt wedi eu dyddio na'u harwyddo.

Nid yw'r cabinet ble cedwir allweddi'r cartref yn cloi.

Mae trefniant o gadw balans rhedegog ar gyfer arian poced preswylwyr. Fodd bynnag, darganfuwyd mân gamgymeriadau cofnodi a chyfrifo.

Nid yw amlder y profion a nodir yn y llyfr log tân yn unol â'r disgwyliad. Yn ogystal, nid oedd y fersiwn diweddaraf o'r Cynllun Rheoli Tân ar gael. Serch hynny, mae'r Cynllun wedi ei adolygu'n lled ddiweddar.

Gwelwyd nad yw asesiadau risg y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hadolygu yn fisol, sy'n ddisgwyliad sydd wedi ei osod gan Reolwr y cartref.

O'r sampl a wiriwyd, gwelwyd fod 1 aelod o staff wedi gweithio yn y cartref cyn i'r dadleniad GDG (DBS) gael ei gyflwyno, ond derbyniwyd sicrwydd gan y Rheolwr bod yr amgylchiadau gweithio o dan oruchwyliaeth.

Nid yw pob aelod o staff sy'n darparu meddyginiaeth wedi arwyddo i ddatgan eu bod wedi darllen a deall y Polisi Meddyginiaeth. Gwelwyd hefyd fod anghysondeb rhwng y wybodaeth a gyflwynir ar y cofnod o dymereddau'r ystafell feddyginiaeth a'r oergell a'r hyn a nodir yn y Polisi Meddyginiaeth.

2.7.2 Mynegodd y Rheolwr Archwilio nad oedd swyddog o'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ar gael i gynrychioli'r cartref yn y Gweithgor hwn. Eglurwyd bod y Rheolwr Ardal Gogledd – Preswyl a Dydd wedi cysylltu i ymddiheuro na all Rheolwr Plas Gwilym na hithau fod yn bresennol yn y Gweithgor oherwydd eu bod yn cynnal cyfweliadau ac nad oedd modd iddynt ail-drefnu.

2.7.3 Yn sgil absenoldeb y swyddogion allweddol, eglurodd y Rheolwr Archwilio ei bod wedi cytuno i'r swyddogion anfon crynodeb ysgrifenedig o'r camau maent wedi ei gymryd i leihau'r risgiau a amlygwyd yn yr adroddiad archwiliad ynghyd â unrhyw dystiolaeth i gefnogi hynny.

2.7.4 Darllenodd y Rheolwr Archwilio grynodeb o'r holl gamau gweithredu, gan rannu'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan Reolwr Plas Gwilym gydag aelodau'r Gweithgor. Gwelwyd bod cynnydd cadarnhaol wedi ei wneud i liniaru'r risgiau a amlygwyd. Ategodd yr Arweinydd Archwilio y buasai Archwilio Mewnol yn gwirio'r dystiolaeth yma'n fanwl fel rhan o'r archwiliad dilyniant.

2.7.5 Trafodwyd yn y Gweithgor bod trosiant staffio uchel ym Mhlas Gwilym a bod problem ganddynt i ddenu gweithwyr i'r swyddi. Eglurodd yr Arweinydd Archwilio bod problemau staffio yn y Cartref ar ddiwrnod yr archwiliad sydd yn golygu ei bod yn anorfod bod y Rheolwr yn darparu gofal yn uniongyrchol i'r preswylwyr sydd yn golygu bod gwaith gweinyddol yn cael ei ohirio yn ystod argyfyngau o ddiffyg staff.

2.7.6 Awgrymodd un aelod y dylai'r Pwyllgor Archwilio ymateb yn bositif i'r ymdrechion amlwg gan y Cartref i wella perfformiad yn ystod cyfnod anodd o ddiffyg adnoddau staffio a derbyn bod y Cartref yn gorfod blaenoriaethu rhoi gofal i'r preswylwyr. Cytunodd aelodau eraill y Gweithgor gyda'r datganiad.

2.7.7 **Gofynnodd aelodau'r Gweithgor i'r Rheolwr Archwilio ddiolch i'r Rheolwr Ardal Gogledd a Rheolwr Plas Gwilym am ddarparu diweddariad a thystiolaeth i gefnogi gweithrediadau.**

2.8 Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweithgor a rhoddwyd clod i'r holl wasanaethau am eu gweithrediadau.